

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Mercher, 14 Ionawr 2015

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sarah Beasley
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565

SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru

Agenda

Cyfarfod preifat cyn y brif cyfarfod (9.00 – 9.15)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru (Elfen 1) – sesiwn dystiolaeth 10: Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (9.15 – 10.30) (Tudalennau 1 – 21)

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru

Eleanor Marks, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 22 – 29)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 o'r cyfarfod ar 22 Ionawr 2015

(dull i graffu ar y Bil Awdurdod Lleol (Cymru), yn amodol ar gyflwyno)

5 Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru (Elfen 1): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod sesiwn 10 (10.30 – 10.45)

6 Ystyried yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Awdurdod Lleol (Cymru) (10.45 – 11.00) (Tudalennau 30 – 33)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-01-15 Papur 1 / Paper 1

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol–
Ymchwiliad i Tlodi yng Nghymru**

Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Llinyn 1 - Tlodi ac Anghydraddoldeb.

Effeithiau Tlodi ar Grwpiau Gwahanol o Bobl

2. Mae cysylltiadau annatod rhwng tlodi a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r carn i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a threchu tlodi.
3. Deellir bod tlodi parhaus neu eithafol yn fwy tebygol o effeithio ar bobl anabl, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, rhieni sengl (sy'n fenywod yn bennaf), grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl hŷn.
4. Yn ôl ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi na phobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn wedi'i waethyg gan raglen Diwygio Lles Llywodraeth y DU. Canfu rhaglen ymchwil Llywodraeth Cymru i effaith Diwygio Lles y bydd pobl anabl yng Nghymru yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan doriadau i wasanaethau lleol o ganlyniad i doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol.
5. Law yn llaw â'r tebygolrwydd uwch o fyw mewn tlodi, gwyddom fod gan grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig gyrhaeddiad addysgol sy'n anghymesur is. Mae'r rhain yn cynnwys rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ee disgyblion Du ac Africanaidd Caribiaidd a rhai sydd o dras Bangladeshaidd a Phacistanaidd, yn ogystal â'r rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a bechgyn gwyn o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mae disgyblion o lleiafrifoedd ethnig a bechgyn dosbarth gweithiol gwyn hefyd yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y rhai sy'n cael eu gwahardd yn barhaol. Mae hyn yn fwy amlwg byth ymhlið disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), gyda thua hanner y rhai sy'n cael eu gwahardd ag AAA.
6. Mae menywod yn dweud bod eu cyrifoldebau gofalu am eu plant neu rieni yn effeithio ar eu cyfleoedd i weithio neu symud ymlaen yn y gweithle. Mae adroddiadau diweddar yn dod i'r casgliad bod cyrifoldebau gofalu yn parhau i

atal menywod rhag cyrraedd eu llawn botensial ac yn cyfyngu ar eu rôl bosibl yn economi Cymru drwy eu dal ym magl swyddi rhan-amser ar gyflog is.

Nododd adroddiad gan grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013 mai menywod, yn hytrach na dynion, fyddai'n cael eu taro galetaf. Ym mis Tachwedd 2014, amlinelloedd adroddiad Chwarae Teg 'Menywod a Diwygio Lles' sut y mae Diwygio Lles hyd yma wedi cael effaith anghymesur ar fenywod a sut y bydd yn parhau i wneud hynny.

Cydgysylltu effeithiol rhwng y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Strategaethau eraill y Llywodraeth

Cydgysylltu Effeithiol

7. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith cydraddoldeb a tlodi ym mhob maes polisi, ac mae hyrwyddo cydraddoldeb a threchu tlodi wrth wraidd ein Rhaglen Lywodraethu.
8. Mae dogfennau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru yn llunio ymagwedd gydlynol a chyson tuag at drechu tlodi. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (CGTT) yn gosod yr ymagwedd lefel uchel tuag at drechu tlodi yng Nghymru, gyda thargedau penodol a mesuradwy. Mae'r themâu a nodir ganddo fel blaenoriaethau yn cael eu hadlewyrchu a'u datblygu mewn dogfennau mwy penodol a manwl.
9. Er enghraifft, mae targedau ar gyfer torri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a tlodi yn cael eu cynnwys yn y CGTT. Mae'r ddogfen Ailysgrifennu'r Dyfodol, a gynhyrchwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn cyfeirio at y targedau hyn ac yn adeiladu arnynt. Mae'n darparu dadansoddiad mwy trylwyr o'r ymagwedd a'r camau gweithredu sydd eu hangen i effeithio ar gyrhaeddiad addysgol y rhai sy'n byw mewn tlodi.
10. Yn yr un modd, mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenciad yn cysylltu'n uniongyrchol â'r targedau yn y CGTT, mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'n nodi'r camau sydd angen eu cymryd i leihau nifer y bobl ifanc NEET a'r broses benodol y dylid ei mabwysiadu. Mae eisoes yn gwneud cynnydd gwirioneddol ac wedi cael croeso cynnes gan Awdurdodau Lleol.
11. Mae dogfennau eraill, gan gynnwys Cynllun y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion y Cynllun Gweithredu.
12. Mae'n amlwg nad yw un ateb yn addas i bawb wrth geisio trechu tlodi. Gwyddom fod gwahanol grwpiau yn cael eu heffeithio'n wahanol gan dlodi, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddai'n amhriodol grwpio pobl gyda'i gilydd a chymryd yn ganiataol y bydd yr un ymyriadau yn cael yr un effaith ar bawb. Golyga hyn fod angen gwahanol ymatebion a strategaethau polisi i dargedu gwahanol grwpiau ac agweddau ar fyw mewn tlodi.

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

13. Mae nifer o amcanion cymaradwy yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a'r CGTT. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion sy'n canolbwytio ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.
14. O fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae ein hamcanion ar y bwlch cyflog o safbwyt rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, gwasanaethau cynghori, gofal plant fforddiadwy a helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol hefyd yn cyd-atgyfnerthu'r camau gweithredu o fewn y CGTT.

Strategaeth Tlodi Plant

15. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig yn tynnu sylw at y cysylltiadau gyda'r CGTT ac yn eu hatgyfnerthu, a dyma'r mecanwaith allwedol ar gyfer cyflawni'r amcanion rydym wedi'u gosod i drechu tlodi plant. Mae'n cynnwys ffocws o'r newydd ar sicrhau bod ein strategaethau, polisiau, cynlluniau a rhagleni i gyd yn cysylltu â'i gilydd, gan gynnwys gyda'r Strategaeth Cydraddoldeb Strategol, er mwyn sicrhau ffocws cyson a pharhaus ar blant a phobl ifanc.
16. Mae'r Strategaeth yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull integredig o asesu effaith, gan ystyried tlodi a chydraddoldeb gyda'i gilydd. Bydd hyn yn galluogi Adrannau i ystyried yr effeithiau ar y rhai sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn tlodi.

Cydgysylltu a blaenoriaethu deddfwriaeth, polisi a chyllidebau sydd wedi'u targedu at drechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb ar draws Llywodraeth Cymru

Bwrdd Gweithredu ar Drechu Tlodi

17. Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi sy'n cadeirio'r Bwrdd Gweithredu ar Drechu Tlodi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru sy'n atebol am y targedau a'r cerrig milltir yn y CGTT. Dyma gyfle'r Gweinidog i sicrhau bod polisiau, rhagleni, dogfennau strategaeth ac adrannau yn cydweithio i leihau tlodi yng Nghymru mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol.

Deddfwriaeth

18. Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r agenda hon. Y tu hwnt i ddeddfwriaeth pwnc-benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ategu ei gweithgareddau gyda ffocws ar drechu tlodi ac anghydraddoldeb. Mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hymgorffori yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ac yn cael eu hadlewyrchu

yn egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru (a chyrff allweddol eraill yn y sector cyhoeddus) i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Cymru ac i osod amcanion ar gyfer trechu tlodi plant a gwella canlyniadau teuluoedd ar incwm isel.

19. Wrth symud ymlaen, bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn creu fframwaith cryfach ar gyfer pob deddfwriaeth ddilynol, yn cryfhau llywodraethu ac yn sicrhau ymagwedd gydlynol at bob gweithgaredd. Mae'r nodau yn cynnwys "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynol". Mae'r nodau hyn yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Byddant yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd pob gweithgaredd ac yn sicrhau bod materion cymdeithasol, yr economi a'r amgylchedd yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Polisi

20. Ar draws Llywodraeth Cymru, nod polisiau a rhaglenni yw cefnogi cymunedau tloaf Cymru, yn ogystal â thargedu grwpiau â nodweddion gwarchodedig mewn llawer achos. Mae yna ffocws ar wella bywydau pobl sy'n byw ar incwm isel drwy raglenni pwrpasol ac, yn bwysig, trwy bolisiau 'prif ffrwd'.
21. Er enghraiftt, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud mynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel yn brif flaenoraieth, ac mae wedi dyrannu adnoddau sylweddol i helpu i gyflawni hyn drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion, Her Ysgolion Cymru ac ymgyrch i dynnu sylw at rôl y teulu.
22. Mae'r Gweinidog lechyd wedi gwneud ei ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn glir ac wedi ymrwymo i adolygu'r fformiwla a ddefnyddir i ddosbarthu adnoddau i Fyrddau lechyd er mwyn sicrhau dyraniad sy'n adlewyrchu angen.
23. O fewn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi, rydym wedi gwneud ymrwymiad cryf i gryfhau ac adeiladu ar y cysylltiadau (sydd eisoes yn gryf) rhwng y sector Tai ac ymdrechion i leihau tlodi. Mae hyn yn cynnwys trwy adfywio cymunedau, gwneud y gorau o adnoddau trwy ymgorffori budd cymunedol ym maes caffael a chryfhau cysylltiadau rhwng landlordiaid cymdeithasol a phartneriaid eraill.
24. Y tu hwnt i hyn, mae'r Is-adran Trechu Tlodi yn gweithio gyda phartneriaid allanol a chydweithwyr ledled Llywodraeth Cymru i sicrhau bod trechu tlodi yn flaenoraieth i bawb, bod ymdrechion yn cael eu cydgysylltu a bod dull cyffredin o fynd i'r afael â blaenoraiethau a rennir.

Integreiddio Rhaglenni Trechu Tlodi

25. Ceir y prif raglenni sy'n ceisio lleihau tlodi yn benodol yn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi: Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf,

Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl. Mae pob un yn chwarae rhan hanfodol gan helpu pobl ar incwm isel sydd yn y perygl mwyaf o ganlyniadau gwael, a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd wedi cydnabod bod cyfleoedd i wella sut y cyd-gysylltir y rhaglenni hyn, bod modd i ni wella sut rydym yn cydlynun ein ffordd o fynd ati ar lawr gwlaid a gwneud y gorau o'n hadnoddau.

26. Yn 2013, gwnaeth y prosiect Cefnogi Cymunedau Cryf argymhellion i alinio fframweithiau canlyniadau prosiectau Cymunedau yn Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf a'u rhoi ar lwyfan cyffredin. Mae hyn yn cynnwys datblygu patrymau gwaith a llwybrau cyfathrebu ar y cyd lled-ffurfiol mewn ardaloedd lleol a mwy o ffocws ar themâu, cydweithio a rhannu arfer gorau ar themâu cyffredin fel "rhianta".
27. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu datblygu gan y Prosiect Integreiddio. Mae pedwar Swyddog Integreiddio Rhanbarthol yn cefnogi 'Integreiddio Rhaglenni' drwy hwyluso dulliau o gydweithredu rhwng y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.
28. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cyfunol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Rhagwelir y bydd y defnydd o'r Fframwaith hwn yn cael ei brofi gan nifer o ardaloedd "mabwysiadu cynnar" yn y flwyddyn newydd, cyn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Ers cynnwys Tai yn y Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi, mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i a oes angen i'r Fframwaith gael ei ehangu neu ei ailystyried i gynnwys Canlyniadau Cefnogi Pobl.

Cysylltiadau rhwng Rhaglenni Trechu Tlodi a Chydraddoldeb

Teuluoedd yn Gyntaf:

29. Mae'r rhaglen yn cyfrannu'n allweddol at amcanion Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi cyffredinol.
30. Un o elfennau allweddol y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yw swm sydd wedi'i neilltuo i'w wario ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd â phlant anabl a gofalwyr ifanc. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol ddarparu ar gyfer y teuluoedd hyn yn eu holl wasanaethau, fodd bynnag, mae'r cyllid sydd wedi'i neilltuo yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Mae'r elfen hon o'r rhaglen wedi ariannu gwasanaethau newydd ac wedi arwain at well integreiddio a chydgyssylltu gwasanaethau sydd eisoes ar waith. Mae ymarferwyr bellach yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael i bobl anabl a gwerth integreiddio gwasanaethau anabledd gyda darpariaeth prif ffrwd a darpariaeth arall.
31. Mae Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 2 Teuluoedd yn Gyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, yn awgrymu bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi gwella

gallu gwasanaethau lleol a staff i ddarparu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd a effeithir gan anabledd, yn enwedig mewn meysydd lle mae gwasanaethau presennol yn cael eu haddasu. Yn ogystal, cafodd 71% o gynlluniau gweithredu'r Tîm o Amgylch y Teulu a oedd yn benodol ar gyfer teuluoedd a effeithir gan anabledd, eu cau rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2013, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

32. Mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cefnogi ymyriadau sy'n seiliedig ar unigolion ac ar boblogaeth. Mae Awdurdodau Lleol yn cael cryn dipyn o hyblygrwydd i gomisiynu prosiectau ar raddfa fawr. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn gallu diwallu anghenion y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a cheir engrifftiau yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn.

Dechrau'n Deg:

33. Dechrau'n Deg yw rhaglen ymyriadau flaenllaw Llywodraeth Cymru yn y blynnyddoedd cynnar. Erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, bydd cyrhaeddiad Dechrau'n Deg wedi dyblu i 36,000 o blant a'u teuluoedd, yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.
34. Mae data gwerthuso ar gyfer y rhaglen yn dangos tystiolaeth o ganlyniadau uniongyrchol a ragwelir ar gyfer y rhaglen. Mae'n cynnwys datblygiad iaith, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a datblygiad gwybyddol plant yn y rhaglen. Mae ymchwil ansoddol hefyd yn dangos yr effaith ar rieni o ran eu hymddygiad fel rhieni, iechyd a lles a'u canfyddiadau o'r cymunedau lleol lle rydym yn cynnig gwasanaethau Dechrau'n Deg.
35. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd fod rhieni plant sy'n rhan o'r rhaglen yn elwa ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu sgiliau newydd ac felly'n gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Yn benodol, mae'r gallu i gael gafael ar ofal plant rhad ac am ddim wedi galluogi rhieni i gyrchu hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig i unig rieni.
36. Mae ystod o ddata wedi'i gasglu mewn perthynas â phlant sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae data wedi ei ddadgyfuno a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14, ar gyfer y plant sy'n rhan o lwyth achosion Ymwelwyr lechyd, ar gael.

Cymunedau yn Gyntaf:

37. Mae'n ofynnol i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf amlinellu yn eu Cynlluniau Cyflawni y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal i sicrhau bod darpariaeth yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'n rhaid i glystyrau fynd ati'n ddyfal i hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. Dylai grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a rheoli gwaith y Clystyrau, yn ogystal ag elwa ar y rhaglen. Dylai clystyrau hefyd ddangos yn eu Cynlluniau Cynnwys Cymunedau sut mae pobl leol, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys ar bob lefel yn y rhaglen.
38. Mae yna hefyd amrywiaeth o Brosiectau Canlyniadau a Rennir sy'n ceisio mynd i'r afael â materion sy'n rhan o dlodi, annhegwch ac anghydraddoldeb.

Mae prosiectau fel StreetGames, a ariennir drwy Cymunedau yn Gyntaf, yn cefnogi menywod ifanc a merched, yn enwedig o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, i fod yn fwy egniol a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol. Mae'r prosiect hwn yn gwella iechyd menywod ifanc ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, yn rhoi hwb i'w lefelau hyder ac yn dysgu sgiliau newydd iddynt.

39. Mae "Modd i Fyw", sef Archwiliadau Iechyd a Lles ar gyfer y rhai dros 50, a ariennir drwy Cymunedau yn Gyntaf a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC), wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng Adrannau. Mae'n darparu cefnogaeth ar gyfer gweithredu ym mhob ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Cefnogi Pobl:

40. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn gwneud cyfraniad pwysig i helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Mae'n cael ei ddefnyddio i dargedu'n benodol rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ifanc, rhieni sengl a lleiafrifoedd ethnig.

Cyllid Ewropeaidd

41. Ar draws holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-20 (drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Cynllun Datblygu Gwledig) caiff trechu tlodi a chydraddoldeb eu nodi ar wahân fel Themâu Trawsbynciol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob rhaglen a ariennir ystyried y themâu hyn.

Cyllidebau

Asesu Cyllidebau

42. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i asesu effaith ei phenderfyniadau gwariant ar bobl Cymru. Ar ddechrau'r adolygiad o wariant yn 2010, cyhoeddwyd Asesiad Effaith cynhwysfawr cynlluniau gwariant ochr yn ochr â Chyllideb Derfynol 2011-12. Llywodraeth Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i wneud hynny ac mae wedi parhau i arwain y ffordd yn hyn o beth, gan adeiladu ar hyn bob blwyddyn.
43. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu at yr adroddiad manwl drwy asesu effaith penderfyniadau cyllidebol arwyddocaol a wneir bob blwyddyn. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys ystyried meysydd polisi allweddol megis Trechu Tlodi a Chydraddoldeb ac adborth gan randdeiliaid allweddol.
44. Mae'r ymrwymiad i welliant parhaus yn un o'r rhesymau allweddol pam y sefydloedd y Gweinidog Cyllid Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) yn 2012, er mwyn gwella ansawdd y wybodaeth a ddarperir i'r Asesiad Effaith. Mae gan y Grŵp rôl allweddol yn cefnogi gwelliant parhaus yr Asesiad Effaith ac yn darparu fforwm ar gyfer rhannu a thrafod natur anghydraddoldebau yng Nghymru. Mae'n ffynhonnell werthfawr o gyngor ac yn gyfrwng ymgysylltu allweddol.

45. Eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hasesiad Integredig Strategol o'r Gyllideb, ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Medi 2014 ac mae'r adroddiad yn benodol yn ystyried cydraddoldeb, trechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant a'r iaith Gymraeg.
46. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu pwysigrwydd ystyried pa mor gynaliadwy yw penderfyniadau yn ogystal ag ategu egwyddorion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r ymagwedd hon hefyd yn cydnabod y berthynas rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac effeithiau trawsbynciol penderfyniadau cyllidebol.

Cyllid ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig i drechu tlodi

47. Drwy amrywiol raglenni, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, gan geisio lleihau eu risg o fyw mewn tlodi a lleihau annhegwch. Mae'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn dyfarnu £4.9 miliwn dros gyfnod tair blynedd y rhaglen i 16 o sefydliadau trydydd sector gan gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru, yn enwedig yr amcanion cydraddoldeb a geir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Mae'r grant yn cefnogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.
48. Mae'r Grant Digartrefedd yn cefnogi sefydliadau megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru i weithio gyda Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches a Shelter Cymru i weithio gyda Grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Er bod y Grant Datblygu Polisi Tai yn ariannu sefydliadau megis Tai Pawb, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod gan bob unigolyn yr hawl i gael mynediad at dai o ansawdd da mewn cymunedau cydlynol a diogel.
49. Mae Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a phartneriaid y prosiect tan fis Mehefin 2015. Prif nod y prosiect yw deall yn well a mynd i'r afael â'r ffyrdd y mae anghydraddoldebau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu hatgynhyrchu trwy ffactorau fel gwahanu galwedigaethol a gwaith rhan-amser a gwaith contract.
50. Mae Cymunedau 2.0 yn darparu cyngor a chymorth i helpu i feithrin sgiliau er mwyn i bobl agored i niwed gael eu cynnwys yn ddigidol.
51. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth o sefydliadau Trydydd Sector drwy gyllid craidd a chyllid yn seiliedig ar brosiectau. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n canolbwytio ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys Anabledd Cymru, Chwarae Teg, Age Cymru, Black Association of Women a Barnardo's Cymru.

Casgliad

52. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod themâu trawsbynciol trechu tlodi ac anghydraddoldebau yn cael eu cydgylltu o safbwyt eu cysylltiad â'i gilydd ac yn cael eu hymgorffori mewn penderfyniadau polisi a deddfwriaeth ar draws Llywodraeth Cymru.

Eitem 3

14 Ionawr 2015 – Papurau i'w nodi

Rhif papur:	Mater	Oddi wrth	Cam gweithredu
Papurau cyhoeddus i'w nodi			
2	Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru (Elfen 1)	Barnardo's Cymru	Ymateb i lythyr y Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod ar 19 Tachwedd.
3	Deddfwriaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ynghymru	Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth	Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn perthynas â deddfwriaeth



Title: **Inquiry into Poverty in Wales: supplementary questions following oral evidence**

From: Dr Sam Clutton
Assistant Director, Policy

E-mail: Samantha.clutton@barnardos.org.uk

Tel: 01639 620771

Address: Barnardo's Cymru Policy and Research Unit
19-20 London Road
Neath
SA11 1LE

1. Information and working context of Barnardo's Cymru

Barnardo's Cymru has been working with children, young people and families in Wales for over 100 years and is one of the largest children's charities working in the country. We currently run 88 diverse services across Wales, working in partnership with 19 of the 22 local authorities, supporting in the region of 8,500 children, young people and families last year. Barnardo's Cymru services in Wales include: care leavers and youth homelessness projects, young carers schemes, specialist fostering and adoption schemes, family centres and family support, parenting support, community development projects, family support for children affected by parental imprisonment, domestic abuse and parental substance misuse, short breaks and inclusive services for disabled children and young people, assessment and treatment for young people who exhibit sexually harmful or concerning behaviour and specialist services for children and young people at risk of, or abused through, child sexual exploitation and young people's substance misuse services.

Every Barnardo's Cymru service is different but each believes that every child and young person deserves the best start in life, no matter who they are, what they have done or what they have been through. We use the knowledge gained from our direct work with children to campaign for better childcare policy and to champion the rights of every child. We believe that with the right help, committed support and a little belief, even the most vulnerable children can turn their lives around.

- **This response may be made public.**
- **This response is on behalf of Barnardo's Cymru.**

Barnardo's registered Charity Nos. 216250 and SCO37605
Rhifau Cofrestru'r elusen Barnardo's 216250 a SCO37605

Inquiry submission: Strand 1: poverty and inequality

Barnardo's Cymru works with families, children and young people across Wales. This work includes provision of Families First services, provision in Communities First areas and work with specific groups who are particularly vulnerable to poverty such as families with disabled children, young carers whose parents are disabled or have issues such as substance misuse, children affected by parental imprisonment, young parents, care leavers and homeless young people.

1. Leadership and coordination

- **How successful is the Tackling Poverty Action Plan in linking with child poverty strategies?**
- **How could coordination between different strategies to tackle poverty be improved?**
- **Is there a tension between integrated, cross-governmental approaches to tackling poverty, and the need to provide tailored solutions to specific groups of people?**

We set out in our first written submission concerns about the loss of a specific Child Poverty Delivery Plan (as set out at consultation stage in relation to the current Strategy) and the development instead of an all age Tackling Poverty Action Plan. In particular the loss of a clear framework to deliver change for children affected by poverty against the UNCRC is less likely to achieve a position where children and young people living in families experiencing material deprivation can access their rights in the same way as their peers to secure good outcomes.

It is fair to say that revisions of the Tackling Poverty Action Plan since 2011 have led to incremental improvements in terms of inclusion of child poverty issues. The revised Child Poverty Strategy for Wales (currently out for consultation) has a much stronger focus on the UNCRC than the current Strategy as published in 2011. The revised Child Poverty Strategy for Wales has been developed in a way that clearly links the Strategy and the current Tackling Poverty Action Plan. Work has been undertaken to set out the link between Tackling Poverty Action Plan outcomes and revised Child Poverty Strategy outcomes with shared targets/indicators and key policies for policies and programmes (see pages 23-26 of revised Child Poverty Strategy).

However we would strongly advocate the need for a separate Child Poverty Strategy Delivery Plan that utilises a children's rights framework in line with the UNCRC. The Welsh Government 'Evaluation of the Welsh Child Poverty Strategy' 2014 evidences that the percentage of children in relative poverty after housing costs (33%) and in-work poverty after working costs (21%) is worse than in the baseline year of 2005. The current global economic situation, UK austerity measures and welfare reform mean that realistically we are unlikely to see a reduction in material deprivation and in the number of children living in poverty in Wales. However Welsh Government can still take measures to mitigate the effects of poverty on children and young people and to ensure that household income does not impact on the degree to which children can access and realise their rights in line with their peers.

An approach that focuses on ensuring that children in poverty can realise their rights will in turn impact positively on the potential for them to enjoy good outcomes. Without this focus and investment children will remain in poverty as they grow into adulthood and will have children who grow up in the poor households and the cycle of poverty will not be broken.

The Children's Commissioner for Wales has set out in his Child Poverty Strategy (2012) that: '*Child poverty is the result of family poverty. However a child poverty approach to tackling the issue is essentially different from a family poverty approach.³ A child poverty approach puts the child at the centre of all policy measures and acknowledges the child as a rights bearer with rights that extend beyond the family. Once framed in a child rights context, based on the UNCRC the distinctiveness of a child poverty approach becomes clear and should drive all policy initiatives to combat child poverty.'*'

We are concerned about the loss of the Deputy Minister for Tackling Poverty portfolio at a time when welfare reform, employment practises such as zero hour contracts and the increased cost of living mean that strong leadership on poverty across Welsh Government divisions is critical. The children's sector in Wales is advocating strongly for a Children and Young People's Minister who could provide strong leadership on child poverty as a cross-cutting issue.

2. Tackling poverty and inequality

- Although some levers of influence over the labour market do not sit with the Welsh Government, what action could it take to encourage employers in Wales to assist in tackling poverty?**

The introduction of a socio-economic duty in Wales would assist in securing employer practices that would tackle poverty such as consideration of the placement of new premises in communities of multiple deprivation, an increase in flexible working arrangement offers and improvements in the potential for securing the living wage for employees. The Welsh Government commitment to support the development of a skilled workforce through education, training and workforce development must go hand in hand with structural changes to support employers in providing real and sustainable employment opportunities.

- How could the introduction of a socio-economic duty in Wales support the Welsh Government's strategic focus on tackling poverty?**

A person's socio-economic background remains a key factor in determining their life chances and there is a clear link between the risk of socio-economic disadvantage and protected characteristics. The introduction of a socio-economic duty in Wales would contribute significantly to driving forward efforts to reduce the impact of child poverty and to improve equality of outcomes for children and young people in Wales.

The introduction of a socio-economic duty would support a process of integrated accountability for 'poverty proofing' in relation to the development of legislation and of policy at the national, regional and local

level. The duty could also impact positively on recruitment and employment practices, procurement policy and the focus on tackling poverty across key sectors such as housing, health, education etc.

While a Child Poverty Duty already exists as a result of the Children and Families Measure 2010 that required public bodies to produce a Child Poverty Strategy our original written evidence set out the ways in which the demonstration of this duty has been diluted in new integrated planning processes.

- **Your evidence highlights evidence of in-work poverty and food poverty. Can you expand on the specific issues faced by users of your services?**

Unfortunately many of the issues we have identified are very well rehearsed and have been examined over a number of years but continue to persist. Issues such as fuel poverty, transport costs, digital exclusion, the poverty premium, high interest debt, costs associated with education, and extra curricula activity and food poverty in the school holidays for families who qualify for free school meals.

However the impact of the radical changes that have been made to benefits system, unemployment rates, zero hour contracts and the rising cost of living are leading to a marked increase in families who are approaching our services in a state of destitution. We have seen a marked increase in the number of families experiencing food poverty because of rising living costs but also because of issues such as benefits changes and benefit sanctions.

3. Definition and evidence

- **To what extent does the Welsh Government's understanding of poverty reflect the actual experiences of families living in poverty, particularly around stigma and public attitudes?**

Our engagement with Welsh Government in relation to poverty suggests to us that they actively seek evidence from the sector in relation to the impact of poverty on families. Key programmes such as Communities First, Families First and Flying Start are underpinned by an approach based on community development and working with family strengths. The importance of supporting pupil well-being to tackle disadvantage has been recognised through guidance such as 'Rewriting the Future' but more could be done to ensure the implementation of processes to support pupil well-being. Exclusionary practices such as demand for course materials (especially for vocational education and training), expensive school trips and the expense of events such as the school prom (now common practice), insistence on uniform from more expensive suppliers, continue to leave children and young people from low income households feeling singled out and stigmatised.

- **Witnesses told the Committee last week that there needs to be a better understanding of who is living in poverty, as it is not a static and homogenous group. Should the Welsh Government adopt a clear definition of poverty?**
- **Could the Welsh Government collect more data to understand and address how people experience poverty in Wales, for example by taking into account debt and other expenditure rather than just measuring household income?**

We believe that there is already firm evidence from Wales and the UK in relation to poverty, for example from the Joseph Rowntree Foundation and the New Economics Foundation as well as from the Welsh Government. There is an official measure of poverty and Welsh Government has recognised the issue of in-work poverty. We do not believe that the adoption of a clear definition is a priority; rather it should be a priority to tackle the poverty that is already identified.

We already understand what the issues are- we have been examining the issue of child poverty in Wales for well over a decade. Data is already available from tackling poverty programmes as well as from UK sources. Some useful analysis of the impact of the welfare reforms was generated through work commissioned by Welsh Government. The focus must be on mitigating the impact of poverty and securing the well-being of families in poverty and the rights of children in poor households.

- **How effectively does the Welsh Government evaluate its actions to tackle poverty, such as Families First and Flying Start?**

The Welsh Government has commissioned evaluations of both programmes which has been published and are reasonably in-depth. We also understand that a shared outcomes framework for Families First, Flying Start and Communities First is being developed. As providers of Families First and Flying Start services we are subject to rigorous accountability measures in relation to use of resources, value for money and outcomes. The frequency of reporting and the level of scrutiny at a local level are very robust.

Ken Skates AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Christine.Chapman@assembly.wales

9th Rhagfyr 2014

Annwyl Christine,

Byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth ynghylch amgylchedd hanesyddol Cymru gerbron y
Cynulliad Cenedlaethol cyn toriad yr haf y flwyddyn nesaf.

Nod y Bil yw:

- Diogelu asedau hanesyddol yn fwy effeithiol;
- Gwella dulliau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd mwy
cynaliadwy;
- Sicrhau gwell tryloywder ac atebolrwydd o safbwyt y penderfyniadau a gaiff eu
gwneud ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

Os hoffech chi ac unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth
Leol enny'n gwell dealltwriaeth o amcanion y Bil ynghyd â chwmpas ei ddarpariaethau,
byddwn yn barod i drefnu cyfarfod.

Yn gywir,

Ken Skates

Ken Skates AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgyrrchu (100%)
Tudalen y pecyn 29

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholaethau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon